YR YSTWYLL 6

JEREMEIA 17:5-10; SALM 1;
1 CORINTHIAID 15:12-20; LUC 6:17-26

● **Gweddi agoriadol**

Bydd gyda ni, Arglwydd, yn ein canu,
ein gweddïau a'n myfyrdod,
ac wrth i ni gyfarfod
bendithia ni a'n calonogi,
fel y byddom
yn fendith i'r rhai sydd tu allan i'r muriau hyn.

● **Moliant**

Ti yw ein caer
a'n hamddiffynnydd,
ein cysgod rhag y storm,
y byddwn yn cysgodi ynot
nes bo'r tawelwch yn disgyn.

Ti yw ein sylfaen,
y graig gadarn
lle mae ein hymddiriedaeth.

Cyfiawnder,
trugaredd,
cariad
a hedd wyt ti.
Ti yw popeth
sy'n llenwi ein gwacter.

● **Cyffes**

Pan brofir ffydd i'r eithaf
a ninnau'n baglu,
maddau i ni.

Pan fydd traed yn gadael y llwybr
a ninnau'n crwydro,
maddau i ni.

Pan yw ein cymydog mewn angen
a ninnau'n cerdded heibio,
maddau i ni.

Pan yw lleisiau'r byd hwn
yn boddi dy sibrwd,
maddau i ni.

Pan yw cariad yn
ein denu at dy draed
mewn edifeirwch,
maddau i ni.

● **Diolch**

Arweinydd: Dduw cariad
Pawb: Rwyt yn deilwng o'n diolch.

Am gariad sy'n cynnig adnewyddiad
i bawb sy'n yfed ohono,
goleuni i bawb sy'n cerdded ynddo,
nerth i bawb sy'n gobeithio ynddo:

Arweinydd: Dduw cariad
Pawb: Rwyt yn deilwng o'n diolch.

Am gariad sy'n cynnig iachâd
i bawb sydd ei angen,
llawnder i bawb sy'n byw ynddo,
bendith i bawb sy'n rhoi ohono:

Arweinydd: Dduw cariad
Pawb: Rwyt yn deilwng o'n diolch.